# Adolygiad Dilynol o'r Gwasanaeth Cynllunio – Cyngor Sir Powys

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4560A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd a benodwyd yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Yr hyn yr edrychom arno | 4 |
| Yr hyn a ganfuom | 4 |
| Cefndir i'r archwiliad hwn | 5 |
| Ein dulliau archwilio | 6 |
| Ein dyletswyddau archwilio | 6 |
| Atodiad 1 – Dyfarniad cynnydd yn erbyn yr argymhelliad | 7 |
| Atodiad 2 – archwilio cwestiynau, meini prawf a fframwaith barn | 15 |

# Adroddiad

## Yr hyn yr edrychom arno

1 Ein hamcan archwilio oedd asesu cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn Adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r Gwasanaeth Cynllunio 2023 [1].

2 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau ein harchwiliad a gynhaliwyd gennym yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst 2024. Nid yw'r archwiliad hwn yn:

- ymdrin â phob agwedd ar Wasanaeth Cynllunio'r Cyngor;
- adolygu perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio; ac
- adolygu rhinweddau neu benderfyniadau ceisiadau cynllunio unigol.

3 Gwnaethom ddefnyddio meini prawf archwilio[2] i'n helpu i asesu cynnydd y Cyngor a defnyddio fframwaith barn i gategoreiddio cynnydd y Cyngor. Mae'r ddau wedi'u nodi yn **Atodiad 2.** Roedd ein gwybodaeth archwilio gronnol yn hysbysu'r meini prawf a'r fframwaith barn.

4 Roedd yr archwiliad hwn yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol – **A yw'r Cyngor wedi cymryd camau effeithiol i fynd i'r afael ag argymhellion adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2023?**

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, gwelsom fod **y Gwasanaeth Cynllunio wedi ymateb yn gyflym drwy gymryd camau effeithiol i wella ei drefniadau. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi gweithredu argymhellion 2023 yn llawn**.

6 Ymatebodd y Gwasanaeth Cynllunio yn gadarnhaol ac yn gyflym i'n hargymhellion drwy ddatblygu cynllun gweithredu gwella gwasanaethau. Mae'r cynllun hwnnw'n nodi'n glir y camau y bwriadai'r gwasanaeth eu cymryd i wella ei drefniadau, ac aeth rhai ohonynt y tu hwnt i ymateb i'n hargymhellion. Mae'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Cynllunio yn goruchwylio cynnydd yn erbyn y cynllun o bryd i'w gilydd.

7 Yn ystod ein gwaith maes gwelsom welliannau sylweddol a newid cadarnhaol mewn diwylliant a chymorth i swyddogion ar draws y Gwasanaeth Cynllunio. Mae uwch swyddogion yn y Gwasanaeth Cynllunio wedi ymgysylltu'n effeithiol â staff ar draws y gwasanaeth a chydweithwyr o wahanol adrannau ar draws y Cyngor i fynd i'r afael â'r argymhellion. Er bod y swyddogaethau corfforaethol wedi darparu cymorth gwerthfawr i'r gwasanaeth ers ein harchwiliad cychwynnol, rydym o'r farn y dylai'r math hwn o gymorth fod ar gael fel mater o drefn i wasanaethau'r Cyngor.

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru (2023) Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio

[2] Wedi'i ddiffinio fel 'beth ddylai fod' yn unol â deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn unol ag arfer gorau, neu 'beth allai fod', o ystyried amodau gwell.

8 Ar hyn o bryd, nid yw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi derbyn unrhyw ddiweddariadau ar gynnydd y Gwasanaeth Cynllunio wrth fynd i'r afael â'r argymhellion. Rydym o'r farn bod hwn yn gyfle a gollwyd i geisio sicrwydd corfforaethol bod y Gwasanaeth Cynllunio yn gwneud cynnydd. Hefyd, mae'n golygu nad yw'r Gwasanaeth Cynllunio wedi gallu dangos ei ymrwymiad, ei gynnydd a'i lwyddiannau yn gyhoeddus hyd yma.

9 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi gwneud y gwelliannau i'w drefniadau o fewn ei gyllideb bresennol. Yn arwyddocaol, mae wedi ailfodelu ei uwch dîm swyddogion fel y gall yrru'r gwelliannau angenrheidiol ymlaen, gan gynnwys trefniadau newydd, ffyrdd o weithio a phrotocolau.

10 Mae swyddogion yn y Gwasanaeth Cynllunio bellach yn dweud eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, ac mae dull cydweithredol o wella. Mae swyddogion yn gallu trafod y cynllun gweithredu gwella gwasanaethau a'r cynnydd. Caiff camau gweithredu eu trafod yn rheolaidd yn y gwasanaeth gyda chyfleoedd i awgrymu syniadau a ffyrdd gwahanol o weithio.

11 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi ymateb i'n hargymhellion yn effeithiol sydd, gydag ymdrech ac ymrwymiad parhaus, yn golygu ei fod bellach mewn sefyllfa well i sicrhau y gall gynnal y gwelliannau hynny. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn ymateb i'r her o gynyddu'r galw am fewnbwn ecoleg yn y dyfodol i geisiadau cynllunio.

12 Mae **Atodiad 1** yn nodi ein barn fanwl ar gynnydd y Cyngor wrth weithredu ein hargymhellion ar gyfer 2023. Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw argymhellion pellach.

# Cefndir i'r archwiliad hwn

13 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn rheoli'r gwaith o ddatblygu a defnyddio tir er budd y cyhoedd. Mae'n cyfrannu at wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Powys. Rhaid iddo gysoni anghenion datblygu a chadwraeth, sicrhau economi, effeithlonrwydd ac amwynder wrth ddefnyddio tir. Drwy hynny, sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol a diogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig.

14 Mae'n bwysig bod y Cyngor yn gallu dangos ei fod wedi cymryd camau effeithiol wrth fynd i'r afael â'n hargymhellion yn 2023 a bod y newidiadau i'r gwasanaeth Cynllunio yn gynaliadwy.

15 Mae **Arddangosyn 1** yn nodi'r llinell amser o ddigwyddiadau sy'n ffurfio cefndir yr archwiliad hwn.

**Arddangosyn 1: cefndir i'r archwiliad hwn**

| Dyddiad | Gweithred |
|---|---|
| Mai 2023 | Cyhoeddodd Archwilio Cymru ei adroddiad yn dilyn adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio. |
| Mehefin 2023 | Derbyniodd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor gynllun gweithredu yn nodi camau arfaethedig y Cyngor i fynd i'r afael â'r argymhellion. |
| Haf 2024 | Mae'r archwiliad presennol hwn yn asesu cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r argymhellion. |

Ffynhonnell Archwilio Cymru

# Ein dulliau archwilio

16 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygu dogfennau'r Cyngor a chyfweliadau gyda sampl o aelodau, staff yn y Gwasanaeth Cynllunio ac aelodau o Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor. Mae ein hasesiad o gynnydd y Cyngor wedi'i gyfyngu i'r ffynonellau tystiolaeth hyn.

# Ein dyletswyddau archwilio

17 Rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian ar gyfer yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.

18 Gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 (2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Gall hefyd lywio archwiliad a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Atodiad 1

## Beirniadu cynnydd[3] yn erbyn yr argymhellion

Argymhelliad 1. Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun bod sylfeini sylfaenol ar waith i'w alluogi i ddarparu gwasanaeth effeithiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

| Argymhellion | Dyfarniad cynnydd |
|---|---|
| 1.1 (a) adolygu'r bwriad gwleidyddol a strategol ar gyfer ei gyfrifoldebau gorfodi cynllunio, cyfleu hyn yn glir, ac alinio adnoddau i gyflawni bwriad dewisol y Cyngor. | **Gweithredu**<br>1. Adolygodd y Cyngor ei weithgareddau gorfodi cynllunio a phenderfynodd fod angen swyddogion gorfodi cynllunio penodol arno. Diwygiodd y Pennaeth Gwasanaeth y Cynllun Busnes Integredig Cynllunio a Rheoleiddio i gynnwys amcan penodol ar gyfer gorfodi cynllunio. Mae hyn yn cynyddu proffil a phwysigrwydd gweithgarwch gorfodi cynllunio.<br>2. Ailaliniodd y Gwasanaeth Cynllunio ei adnoddau presennol i greu rolau gorfodi cynllunio penodol. Yn 2023, penododd y Cyngor ddau swyddog gorfodi cynllunio ac nid yw swyddogion cynllunio bellach yn cael achosion gorfodi newydd. Mae hyn yn lleihau'r tensiwn blaenorol rhwng gweithio ar geisiadau cynllunio ac achosion gorfodi. Fodd bynnag, mae swyddogion cynllunio wedi cadw achosion gorfodi hanesyddol ar adeg pan fo llwythi achosion yn parhau'n uchel. |

[3] Gweler **Atodiad 2** am esboniad pellach o gategorïau cynnydd.

| Argymhellion | Dyfarniad cynnydd |
| --- | --- |
| | 3. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi diweddaru ei dudalennau gwe i gynnwys gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am orfodi cynllunio. Mae dull gweithredu'r Cyngor o ran gorfodi cynllunio bellach yn fwy tryloyw.<br>4. Mae yna Gynllun Gweithredu Gorfodi Cynllunio. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys: nodau allweddol y gorfodaeth; rhoi mesurau a thargedau perfformiad allweddol i swyddogion cynllunio gorfodi; a gwelliannau i'r dull gorfodi cynllunio. Mae hyn yn cyfleu blaenoriaethau, disgwyliadau'r gwasanaeth gorfodi cynllunio ac yn galluogi monitro cynnydd. |
| 1.2 (b) datblygu Cynllun Busnes Gwasanaethau Cynllunio sy'n sail i'r Cynllun Busnes Integredig Eiddo, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Dylai egluro cysylltiadau'r Gwasanaeth Cynllunio rhwng y Gwasanaeth Cynllunio ac amcanion Corfforaethol y Cygor, i ganolbwyntio camau gweithredu'r gwasanaeth ar wella, a nodi trefniadau monitro gwasanaethau effeithiol, targedau | **Gweithredwyd**<br>1. Bellach mae gan y Gwasanaeth Cynllunio gynllun gweithredu gwella gwasanaethau a chynllun gweithredu gorfodi. Mae'r ddau yn sail i Gynllun Busnes Integredig y Gwasanaeth Cynllunio a Rheoleiddio 2024-2028. O fewn y Cynllun Busnes Integredig mae tri amcan yn ymwneud â'r Gwasanaeth Cynllunio. Mae ffocws cryf ar wella'r Gwasanaeth Cynllunio gyda'r camau gweithredu a'r gweithgareddau allweddol sy'n cyd-fynd â chynllun gweithredu gwella'r gwasanaeth. Mae'r Cynllun Busnes Integredig hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ddatblygu'r gweithlu, sy'n esbonio sut mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn mynd i'r afael â materion blaenorol yn ymwneud â'r gweithlu.<br>2. Wrth ddatblygu Cynllun Busnes Integredig y Gwasanaeth Cynllunio a Rheoleiddio 2024-2028, defnyddiodd y gwasanaeth y dull corfforaethol wrth osod a diweddaru ei risgiau lefel gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio. Mae'r gwasanaeth yn nodi sawl risg sy'n dangos maint ac ehangder y risgiau a'r heriau y mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn eu hwynebu. Mae rheolaethau a chamau gweithredu ystyrlon i liniaru'r risgiau.<br>3. Wrth symud ymlaen, mae manteision i'r gwasanaeth o ran cadw cynllun gwella gwasanaethau. Bydd yn helpu i gynnwys swyddogion wrth lunio cyfeiriad y gwasanaeth yn y dyfodol a nodi |

| Argymhellion | Dyfarniad cynnydd |
|---|---|
| perfformiad, datblygu'r gweithlu a threfniadau rheoli risg. | cyfleoedd newydd. Gallai cynllun gwella gwasanaethau yn y dyfodol hefyd helpu aelodau ac uwch swyddogion i werthfawrogi ymrwymiad y Gwasanaeth Cynllunio i wella a chynorthwyo parhaus i fonitro'r gwasanaeth yn y dyfodol. |
| 1.3 (c) diogelu swyddogion, uwch reolwyr ac aelodau etholedig y Gwasanaeth Cynllunio drwy ddatblygu trefniadau a phrotocolau clir sy'n nodi sut maent yn ymgysylltu'n uniongyrchol ag asiantau cynllunio ac ymgeiswyr i sicrhau uniondeb, ymddiriedaeth a hyder yn y gwasanaeth. | **Gweithredwyd**<br>1. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi cyflwyno mesurau diogelu ar gyfer ei swyddogion a'i uwch reolwyr pan fyddant yn ymgysylltu'n uniongyrchol ag asiantau cynllunio ac ymgeiswyr cynllunio. Sefydlodd y Gwasanaeth Cynllunio Brotocol Cyfathrebu. Mae'r protocol hwn yn nodi'r camau y mae asiantau cynllunio ac ymgeiswyr cynllunio yn cael eu hannog i'w cymryd wrth gysylltu â'r gwasanaeth ar unrhyw gais cynllunio.<br>2. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi trafod y protocol hwn yn rheolaidd yn y fforwm asiantau cynllunio i hyrwyddo'r ffordd newydd o ymgysylltu â'r gwasanaeth. Hefyd, annog pob asiant cynllunio i gadw ato. Mae'r protocol ar gael ar dudalen we allanol y Gwasanaeth Cynllunio i hyrwyddo'r sianeli cyfathrebu gorau i'r cyhoedd.<br>3. Mae cyflwyno'r Protocol Cyfathrebu yn lleihau faint o ohebiaeth a dderbynnir gan uwch swyddogion. Mae hyn hefyd yn helpu i ddiogelu swyddogion rhag pwysau gormodol, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi'n broffesiynol. |
| 1.4 (d) sefydlu trefniadau cyfarfod tîm rheolaidd ac effeithiol i wella cyfathrebu o fewn y Gwasanaeth Cynllunio a darparu cyfle | **Gweithredwyd**<br>1. Mae'r arolygon pwls staff a'n cyfweliadau yn dangos bod gan y Gwasanaeth Cynllunio forâl a chyfathrebu tîm llawer gwell. Mae trefniadau cyfarfod tîm strwythuredig wedi trawsnewid cyfathrebu ac yn darparu amgylchedd gwaith mwy cefnogol. |

| Argymhellion | Dyfarniad cynnydd |
| --- | --- |
| strwythuredig a chyson i swyddogion drafod achosion cynllunio a gorfodi. | 2. Mae cyflwyno cyfarfodydd tîm rheoli datblygu wythnosol yn dod ag ystod o fanteision. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i swyddogion drafod ceisiadau cynllunio ac achosion gorfodi gyda chydweithwyr a rhannu safbwyntiau proffesiynol. Mae'r tîm hefyd yn gwahodd partneriaid a rhanddeiliaid mewnol ac allanol i ddiweddaru swyddogion ar faterion fel ecoleg, iechyd yr amgylchedd, treftadaeth adeiledig, a dylunio. Mae swyddogion o dîm y technegwyr yn derbyn gwahoddiadau misol a gwahoddir swyddogion polisi cynllunio i fynychu bob chwarter.<br>3. Mae'r Arweinydd Proffesiynol Cynllunio bellach yn cadeirio cyfarfodydd chwarterol ar gyfer pob swyddog yn y gwasanaeth. Yn ogystal, mae cyfarfodydd tair wythnos rhwng y Prif Gynllunwyr, Arweinydd Tîm ac Arweinydd Proffesiynol. Mae'r Prif Gynllunwyr, Arweinydd Tîm ac Arweinydd Proffesiynol hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Pennaeth Gwasanaeth.<br>4. Cyflwynodd y Gwasanaeth Cynllunio ddiwrnodau i ffwrdd yn flynyddol i'w holl swyddogion. Hyd yn hyn, bu dau ddiwrnod i ffwrdd blynyddol ac mae swyddogion yn gwerthfawrogi'r dyddiau hyn o safbwynt proffesiynol a chymdeithasol.<br>5. Mae swyddogion yn cael cyfleoedd i ymgynghori a llunio gwelliannau i wasanaethau. Er enghraifft, ar ddiwrnod i ffwrdd ym mis Mehefin 2023, cwblhaodd pob swyddog ddadansoddiad SWOT o'[4] r gwasanaeth. Un syniad a gynhyrchwyd o'r diwrnod i ffwrdd hwn oedd sefydlu 'llinell ddyletswydd'. Mae hwn bellach ar gael 5 diwrnod yr wythnos i'r cyhoedd gysylltu â'r gwasanaeth gydag ymholiadau cynllunio cyffredinol a gofyn am gyngor.<br>6. Ers ein hadolygiad gwreiddiol, mae swyddogion wedi dychwelyd i weithio o'r swyddfa am 2 ddiwrnod yr wythnos. Siaradom â swyddogion i adrodd bod y newid hwn wedi arwain at well cyfathrebu, amgylchedd gwaith mwy cydweithredol ac integredig a thîm mwy sefydlog a chydlynol.<br>7. |

[4] Cryfderau, Gwendid, Cyfleoedd, Bygythiadau

| Argymhellion | Dyfarniad cynnydd |
|---|---|
| | |
| 1.5 (e) rhoi trefniadau tryloyw a chyson ar waith er mwyn i'r gwasanaeth weithredu'n gydlynol fel tîm i drafod gwahaniaethau barn swyddogion ar geisiadau cynllunio, er mwyn sicrhau bod pob swyddog yn fodlon yn broffesiynol â'r penderfyniadau cynllunio terfynol. | **Gweithredwyd**<br>1. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi cyflwyno ffordd i swyddogion drafod gwahaniaethau barn proffesiynol ar gais cynllunio. Mae'r cyfarfodydd rheoli datblygu wythnosol yn caniatáu trafod ceisiadau cynllunio cymhleth neu oddrychol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn hyrwyddo amgylchedd gwaith mwy cefnogol. Mae'r trafodaethau hyn hefyd yn gyfle dysgu a datblygu i swyddogion sy'n eu helpu i deimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth ac yn cael eu gwerthfawrogi'n broffesiynol. |
| 1.6 (f) sefydlu safonau a phrotocolau gwasanaeth a chyfathrebu'r rhain yn effeithiol i bob swyddog i sicrhau dulliau cyson e.e. sut i ymdrin â cheisiadau â gwybodaeth sydd ar goll. | **Gweithredwyd**<br>1. Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu ystod gynhwysfawr o nodiadau cyfarwyddyd cynllunio. Mae'r rhain yn hyrwyddo arfer gorau ac yn sicrhau cysondeb o ran dull. Gall swyddogion gyrchu'r rhain yn hawdd o safle SharePoint mewnol y Cyngor.<br>2. Mae swyddogion y Gwasanaeth Cynllunio yn helpu i ddatblygu nodiadau cyfarwyddyd. Trafodir y rhain mewn cyfarfodydd tîm rheoli datblygu ac mewn cyfarfodydd 1-2-1, lle bo angen. Mae'r nodiadau cyfarwyddyd hyn hefyd yn cael eu defnyddio fel adnodd hyfforddi yn ystod anwythiad staff. |

| Argymhellion | Dyfarniad cynnydd |
| --- | --- |
| | 3. Ar adeg ein hadolygiad o Wasanaeth Cynllunio 2023, nid oedd gan y gwasanaeth ffordd gyson o ymateb i geisiadau cynllunio gyda gwybodaeth sydd ar goll. Roedd hwn yn fater hirsefydlog a rhwystredig a chyfrannodd at lwythi achosion mawr swyddogion. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, mae gan y Gwasanaeth Cynllunio bellach brotocol ar gyfer cytuno ar estyniadau amser neu geisiadau gwybodaeth ychwanegol wrth ddelio â cheisiadau cynllunio sydd â gwybodaeth sydd ar goll. Mae'r protocol hwn yn egluro dull y gwasanaeth o sicrhau ymarfer gwaith cyson a theg ar draws yr holl staff.<br>4. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi defnyddio'r fforwm asiantau cynllunio i wneud asiantau yn ymwybodol o'r protocol hwn. Mae'r gwasanaeth hefyd yn hyrwyddo'r protocol hwn ar wefan y Cyngor, fel y gall y cyhoedd weld pa safonau y mae'r gwasanaeth yn eu disgwyl. |
| 1.7 (g) rhoi cyfleoedd dysgu ffurfiol ar waith i staff er mwyn sicrhau dull cyson, strwythuredig a rhagweithiol i gefnogi swyddogion newydd yn y rôl a darparu cyfleoedd datblygu parhaus i staff presennol. | **Gweithredwyd**<br>1. Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio ddull cyson, strwythuredig a rhagweithiol o gefnogi swyddogion newydd. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi ffurfioli ei broses sefydlu cychwynnol newydd, gan ddefnyddio nodiadau cyfarwyddyd, rhestr wirio sefydlu a chynlluniau hyfforddi unigol ar gyfer dechreuwyr newydd. Mae hyn yn caniatáu i swyddogion newydd ddatblygu, symud ymlaen a magu hyder ar eu cyflymder eu hunain.<br>2. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn datblygu proses sefydlu ffurfiol ar gyfer swyddogion cynllunio sy'n ennill dyrchafiad i gefnogi eu pontio i rôl newydd.<br>3. Mae swyddogion yn defnyddio'r cyfarfodydd rheoli datblygu i rannu dysgu o gyrsiau y maent wedi eu mynychu. Fel y nodwyd uchod, mae'r gwasanaeth yn gwahodd ymgyngoreion yn ogystal â gwasanaethau corfforaethol i'r cyfarfodydd wythnosol i ddarparu cyfleoedd dysgu i swyddogion. Mae enghreifftiau'n cynnwys: cydweithwyr cyllid yn helpu swyddogion i ddehongli |

| Argymhellion | Dyfarniad cynnydd |
|---|---|
| | gwybodaeth ariannol yn ymwneud â cheisiadau cynllunio mentrau gwledig; a'r swyddog cyfreithiol yn egluro'r broses o orfodi hysbysiadau cyfreithiol.<br>4. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn annog swyddogion i nodi cyfleoedd dysgu a datblygu. Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio matrics hyfforddi sy'n cynnwys y gofynion dysgu a datblygu ar gyfer pob swyddog. Fodd bynnag, byddai'r gwasanaeth yn elwa o egluro pwy sy'n gyfrifol am ddiweddaru'r matrics hyfforddi. |
| 1.8 (h) sicrhau bod gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau ansawdd data cadarn i sicrhau ei fod yn adrodd data perfformiad cywir fel y gall staff, Aelodau, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd ddibynnu ar ei gyfanrwydd i wneud penderfyniadau cywir a gwybodus. | **Gweithredwyd**<br>1. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi cyflwyno trefniadau i wella ansawdd ei ddata. Bellach mae gan y gwasanaeth brotocol i hyrwyddo dull cyson o gofnodi data. Mae gwiriadau ansawdd data rheolaidd cyn creu adroddiadau perfformiad. Mae'r Arweinydd Proffesiynol ar gyfer Cynllunio, Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu a'r Technegydd Cynllunio Arweiniol yn cyflawni'r gwiriadau hyn.<br>2. Yn ogystal â'r argymhelliad hwn, mae'r Gwasanaeth Cynllunio bellach yn defnyddio Power BI i greu dangosfyrddau rheoli perfformiad ac adroddiadau rheoli. Mae'r dangosfwrdd perfformiad yn arf pwerus i alluogi pob swyddog, uwch swyddog ac aelod etholedig perthnasol i gael data perfformiad cyfredol a hawdd ei gyrraedd. Mae hyn yn helpu i reoli a monitro'r gwasanaeth. |
| 1.9 (i) adnabod a dysgu o arfer da gan Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill wrth weithredu gwelliannau i wasanaethau. | **Gweithredwyd**<br>1. Mae'r gwasanaeth yn dysgu gan Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill (LPAs) i helpu i lywio ei drefniadau ei hun a gwelliannau i'r gwasanaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys ymgysylltu ar y protocol estyniadau amser, Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) a chaffael system TGCh newydd. |

| Argymhellion | Dyfarniad cynnydd |
| --- | --- |
| | 2. Mae ACLlau eraill hefyd yn agosáu at y Gwasanaeth Cynllunio i ddysgu ganddyn nhw. Mae enghreifftiau'n cynnwys gweithredu ei fforwm asiantau cynllunio, dangosfyrddau perfformiad a'r defnydd o Power BI a sut mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn lleihau'r ôl-groniad o achosion gorfodi. |

# Atodiad 2

## Fframwaith meini prawf archwilio a barn

Cwestiwn cyffredinol: **A yw'r Cyngor wedi cymryd camau effeithiol i fynd i'r afael ag argymhellion adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2023?**

| Meini prawf archwilio |
| --- |
| Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'i amserlenni arfaethedig ei hun. Lle nad yw wedi gwneud hynny, mae wedi cyfleu'r oedi i uwch arweinwyr ac aelodau etholedig. |
| Gall y Cyngor ddangos tystiolaeth o'r hyn sydd wedi newid oherwydd mynd i'r afael â'r argymhelliad |
| Mae'r Cyngor wedi rhoi mesurau llwyddiant priodol ar waith i ddeall effeithiau mynd i'r afael â'r argymhelliad |
| Mae gan y Cyngor drefniadau i herio ei asesiad ei hun o'r cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad |
| Mae'r Cyngor yn darparu diweddariadau cyfnodol i aelodau etholedig ar gynnydd yn erbyn ei weithredoedd i fynd i'r afael â'r argymhelliad |

Ffynhonnell Archwilio Cymru

| Statws Argymhelliad | Esboniad |
|---|---|
| **Heb ei dderbyn** | Nid oedd y corff archwiliedig yn derbyn ein hargymhelliad gwreiddiol. Cofnodir hyn yn y Ffurflen Ymateb Rheoli. |
| **Gweithredu** | Mae'r corff archwiliedig wedi gweithredu'r camau argymell, ac ystyrir bod yr argymhelliad ar gau. |
| **Gwaith ar y gweill** | Mae'r corff archwiliedig wedi dechrau gweithio (gan gynnwys cynllunio) i weithredu'r argymhelliad. |
| **Nid yw'r gwaith wedi dechrau eto** | Nid yw'r corff archwiliedig wedi dechrau gweithio eto i weithredu'r argymhelliad. |
| **Ddim yn berthnasol mwyach** | Mae digwyddiadau neu amgylchiadau eraill, er enghraifft newidiadau deddfwriaethol neu newidiadau sylweddol yn yr amgylchedd gweithredu wedi goddiweddyd argymhellion ac nid ydynt bellach yn berthnasol. Fel arall, mae'r corff archwiliedig wedi canfod ffordd arall o weithredu newid sy'n golygu bod yr argymhelliad gwreiddiol wedi darfod. Hefyd, os yw adroddiad archwilio dilynol Archwilio Cymru wedi gwneud argymhellion gwahanol neu rai sy'n gorbwysleisio. |

Ffynhonnell Archwilio Cymru

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.